Ysgol Hafod Lon,
Parc Busnes Eryri,
Penrhyndeudraeth,
LL48 6LD

Pennaeth: Mrs Donna Roberts
donnaroberts@gwynedd.llyw.cymru
01766 772140

Medi 2021

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Ar ddechrau blwyddyn newydd rydym yn dymuno'n dda i'r plant i gyd ac yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio er bod amgylchiadau ddipyn yn wahanol i bawb oherwydd canllawiau Covid-19.

Thema y tymor fydd: **Teithio/Trafnidiaeth**

Mae ychydig o newidiadau o ran staffio yn yr ysgol eleni a gwelwch restr o staff y dosbarthiadau isod.

Staff yr Ysgol

Pennaeth:	Mrs Donna R. Roberts
Pennaeth Cynorthwyol Uwchradd:	Mrs Sian Watson
Pennaeth Cynorthwyol Cynradd:	Miss Carys Nuttall
Athro Celfyddydau mynegianol:	Mr Meilyr Wyn
Dosbarth Madog	Miss Yvonne Moseley (Athrawes) Mrs Siân A. Williams (Cymorthydd Lefel 3) Miss Esyllt H. Williams Mrs Eleri Tester
Dosbarth Deudraeth	Miss Lois Owen (Athrawes drost gyfnod mamolaeth) Mrs Bethan Ogle (Cymorthydd Lefel 3) Mrs Sian A. Parry Miss Alaw Williams
Dosbarth Y Cob	Miss Alys Burford (Athrawes) Mrs Rachel Jones (Cymorthydd lefel 3) Mrs Catherine Hughes Mrs Sarah Melanie Jones Ms Christa Hope (rhan amser drost gyfnod mamolaeth)

Dosbarth Moelwyn	Miss Katheryn Burford (Athrawes) Mrs Nicola Evans (Cymorthydd lefel 3) Miss Non Owen Miss Carwen Roberts
Dosbarth Hebog	Mrs Bethan Haf Hughes (Athrawes) Mrs Rhian Rogers (Athrawes) Mrs Siobhan Hannah (Cymorthydd Lefel 3) Mrs Nia Wyn Evans Miss Ceris Jones
Dosbarth Cnicht	Miss Carys Nuttall Miss Shelby Hughes (Cymorthydd Lefel 4) Mrs Gwenfair Jones Miss Lowri Roberts
Dosbarth Dwyfor	Miss Jessica Salisbury (Athrawes) Miss Glenda Jones (Cymorthydd Lefel 3) Mrs Tracey Hughes-Evans Miss Kelly Jones Mrs Sian Morris
Dosbarth Lliwedd	Mrs Morwenna Phillips (Athrawes) Mr Finlay Calderwood (Athro) Miss Sara O'Neill (Cymorthydd Lefel 3) Mrs Sian Angharad Hughes Miss Gemma Roberts Mr Cian Evans
Dosbarth Cwmorthin	Mr Deio Brunelli (Athro) Mrs Iola Kacar Mrs Elin Mitchell Miss Kelly Evans
Dosbarth Glaslyn	Mr Alan Jones (Athro) Mrs Eirian Dascalu (Cymorthydd Lefel 3) Miss Glesni Jones Miss Catrin Llewelyn Jones
Dosbarth Gwynant	Mr Meilyr Wyn Mrs Susan Hughes Mr Darren Parry Mr Gethin Jones
Dosbarth Wyddfa	Mrs Sian Watson (Athrawes) Miss Nicola Smith (cymhorthydd Lefel 3) Mrs Liz Robyns Mrs Emma Bracegirdle (drost gyfnod mamolaeth)
Cymhorthyddion Lefel 4	Mrs Ruth Selman Miss Zoe Day Miss Shelby Hughes

Therapyddion Ymddygiad Cadarnhaol-

Mrs Stephanie Hughes BCBA

Mr Cai Brown (Therapydd ymddygiad cadarnhaol dan hyfforddiant)

Nyrs Mrs Karen Whalley

Swyddfa Mrs Catrin Evans
Miss Lisa Marie Jones

Gofalwr Mr Mark Wynne Jones

Athrawon arbenigol yn galw fel bo'r angen:

Therapydd Galwedigaethol Manon Thomas
Therapydd Iaith Carol Davies-Owen, David Hostler
Ffisiotherapydd Carys Cooper-Jones, Nia Roberts, Delyth Jones

Trefn ymweld

Mae gennym bolisi drws agored ond oherwydd amgylchiadau Covid-19 gofynnwn yn garedig i chwi beidio ymweld ar ysgol heb apwyntiad blaenorol wedi ei gytuno gyda'r Pennaeth. Mae groeso i chwi ffonio yr ysgol ar unrhyw adeg, ni fydd staff dosbarth ar gael i siarad yn ystod amser dysgu ond bydd y dderbynfa yn cymeryd neges a byddwn yn eich ffonio yn ôl os oes angen, wrth gwrs mae Seesaw yn ogystal yn ddull hynod effeithiol i gyfathrebu gyda staff dosbarth eich plentyn. Bydd unrhyw gyfarfod, os yn bosib, yn cael eu trefnu unai drost y ffon neu drwy Microsoft Teams. Rydym i gyd yn awyddus i gydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol.

Cychwyn Diwrnod

Bydd drysau'r ysgol yn agor am 8.55am i dderbyn y disgyblion.

Absenoldebau

Gofynnwn yn garedig i chwi ffonio'r ysgol ar fore cyntaf absenoldeb eich plentyn, yn ogystal bydd angen llythyr ar ddiwedd y cyfnod yn rhoi rheswm am yr absenoldeb. Byddwn yn cysylltu â'r cartref os na fyddwn wedi derbyn rheswm am yr absenoldeb ac oherwydd rheolau statudol os na fydd rheswm digonol yn cael ei dderbyn gan yr ysgol byddwn yn gorfod nodi eich plentyn yn absennol heb awdurdod.

Gwyliau Teuluol yn ystod Tymor Ysgol

Mae'r Awdurdod Addysg yn gweithio gydag ysgolion i leihau'r nifer o ddiwrnodau a gollir gan ddisgyblion oherwydd gwyliau yn ystod tymor ysgol a gall ysgol wrthod eich cais i dynnu eich plentyn o'r ysgol.

Os dymunwch dynnu eich plentyn o'r ysgol yn ystod tymor ysgol mae'n ofynnol i chwi lenwi ffurflen sydd ar gael yn yr ysgol o leiaf mis cyn y gwyliau. Gall ysgol ganiatáu absenoldeb ***o hyd at 10 diwrnod*** yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Addysg oni bai fod amgylchiadau arbennig.

Mae rhai amseroedd o'r flwyddyn lle y bydd effaith colli ysgol yn fwy sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfnodau asesu, cychwyn ysgol newydd neu gychwyn tymor ysgol newydd. Wrth benderfynu caniatáu neu wrthod eich cais am wyliau awdurdodedig bydd yr ysgol yn ystyried y ffactorau yma.

Os bydd yr ysgol yn gwrthod eich cais ac eich bod yn parhau i dynnu eich plentyn o'r ysgol bydd yn cael ei drin fel absenoldeb anawdurdodedig.

Cinio
Pris cinio ysgol ar hyn o bryd yw £2.50 y diwrnod.
Cesglir arian cinio ar ddydd Llun. Oherwydd amgylchiadau Covid-19 gofynnwn ble yn bosib i wneud taliadau drwy Gateway trwy wefan Cyngor Gwynedd. Os nad ydych yn ymwybodol o'r system ffoniwch yr ysgol am fwy o wybodaeth.

Gwisg Ysgol
Mae gwisg yr ysgol yn cynnwys crys chwys lliw glas tywyll a chrys polo glas golau. A fusech gystal ag ysgrifennu enw eich plentyn ar bob dilledyn. Croeso i chwi archebu gwisg drwy'r ysgrifenyddes. Mae gennym yn ogystal ychydig o wisg ysgol ail law sydd ar gael am bris rhesymol.

Trefn Gwyno
Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol , wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethol ysgolion a'r Awdurdod yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.
Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafod â'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, felly bydd Corff Llywodraethol yr ysgol yn disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno cŵyn ffurfiol.

Gwyliau
TYMOR:
Hydref 2021- 1 Medi 2021 - 22 Rhagfyr 2021
Gwanwyn 2022- 6 Ionawr 2022 - 8 Ebrill 2022
Haf 2022 - 25 Ebrill 2022 - 20 Gorffennaf 2022
Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Iau, 2 Medi, 2021.
GWYLIAU:
25 - 29 Hydref 2021 (Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2021 - 5 Ionawr 2022 (Gwyliau'r Nadolig)
21 - 25 Chwefror 2022 (Hanner-Tymor)
11 - 22 Ebrill 2022 (Gwyliau'r Pasg)
2 Mai 2022 (Calan Mai)
30 Mai - 3 Mehefin 2022 (Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf - 31 Awst 2022 (Gwyliau'r Haf)
6 diwrnod Hyfforddiant mewn swydd- 1/9/21, 22/10/21, 18/02/22, 8/4/22, 18/7/22, 19/7/22 Ysgol a'r gau i ddisgyblion.
20/07/2022 Gwyl Y Bank, Jubilee y Frenhines (Dim ysgol)

Dyddiadau Pwysig i'w cofio-

Wythnos rhieni – Hydref 15/11/2021
Gwanwyn 28/03/2022
Haf 27/06/2022
Cyngerdd Nadolig- 15/12/2021 (Dibynol ar Fframwaith Penderfyniadau Lleol Cofid-19 os bydd y cyngerdd yn fyw yn yr ysgol neu yn ddigidol)

Diolch yn fawr.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch âr ysgol os gwelwch yn dda.
Yn gywir,

Mrs Donna R. Roberts (Pennaeth)